

Y Goleuad

Bydd darllenwyr *Y Goleuad* yn sylwi yr wythnos hon fod y papur wythnosol y Presbyteriaid yn cael ei argraffu mewn lliw o'r wythnos hon ymlaen. Mae hyn yn ei wneud yn fwy deniadol ei ddiwyg ac yn amlwg bydd y lluniau o'r gwahanol ddigwyddiadau sy'n cael sylw ynddo yn edrych yn well. Mae darllenwyr *Y Tyst*, papur newydd yr Annibynwyr wedi arfer â lluniau lliw ers blwyddyn erbyn hyn.

Mae'n siwr fod llawer o bobl yn credu fod y papurau hyn wedi dod i ben ers talwm. Mae'n dda dweud nad ydynt, a bod y cyhoeddwr yn mentro buddsoddi ynddynt er mwyn hyrwyddo cenhadaeth yr eglwysi a'r enwadau.

Cyhoeddiadau

GOFALAETH

Nos Fercher, Chwefror 17: Pwyllgor yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 14: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Chwefror 14: Gwasanaethir am 10.00 gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 7

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Chwefror 14

2.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts

Chwefror 21

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 14: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 14: Gwasanaethir yn Ysgoldy Maesygroes am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 8: Y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 12: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 14: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Chwefror 12: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



BEIBL BYW

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 7

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts

Chwefror 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 21

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 669: Dydd Sul, 07 Chwefror, 2016

“Iowa? A'i o'ma!”

‘Ychydig iawn o sylwadau annoeth ac ymfflamychol Donald Trump sydd wedi gwneud i ni chwerthin wrth iddo geisio cael ei ethol yn ymgeisydd ei blaid yn Etholiad Arlywyddol yr Unol Daleithiau. Mae'r pethau a glywsom wedi bod yn fwy tebygol o wneud i ni grio na chwerthin. Ond wedi iddo gael ail yn Iowa trwy ddod yn ail i Ted Cruz, chwerthin fu raid wrth glywed Donald Trump o bawb yn cyhuddo'i wrthwynebydd o draddodi araith a oedd yn *overtly flamboyant*.

Dim ond gair neu ddau a glywais o'r araith. Wn i ddim beth ddywedodd Mr Cruz na faint o amser a barodd yr araith a oedd ym marn Mr Trump yn rhy hir o lawer hefyd. Ond Donald Trump yn cyhuddo rhywun o fod yn *flamboyant*? Fo, a hedfanodd i Iowa mewn awyren a'i enw ei hun wedi ei ysgrifennu mewn llythrennau breision ar hyd ei hochr? Fo, a gyrhaeddodd i gyfeiliant cerddoriaeth y ffilm *Airforce 1*, stori ddychmygol am awyren swyddogol Arlywydd yr Unol Daleithiau? Y gwylaidd Donald Trump yn cyhuddo rhywun arall o fod yn ymfflamychol neu'n rhy danbaid neu'n or-liwgar? Sôn am bentan yn gweiddi parddu!

Rhybudd rhag y math hwn o feddwl sydd gan Iesu Grist mewn un rhan o'i Bregeth ar y Mynydd. ‘Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?’ (Mathew 7:3). Does dim rhaid

bod mor gyfoethog, mor enwog, mor amlwg, mor bwysig, na mor falch â Mr Trump i fod yn euog o'r un bai ag o, ac i fod yn euog o'r hyn y mae Iesu'n ein rhybuddio rhagddo. Mor hawdd yw i ninnau weld beiau mewn pobl eraill, a bod yn barod iawn i dynnu sylw atynt, a ninnau'n euog o'r un beiau, a hyd yn oed feiau mwy a gwaeth o lawer.

Ie, beiau gwaeth. Dyna ergyd geiriau Iesu wrth iddo sôn am y darn mawr o bren yn ein llygad ni o'i gymharu â'r brycheuyn lleiaf yn llygad y sawl yr ydym yn ei feirniadu. Mae Iesu'n ein herio i roi mwy o sylw i'r pethau drwg a wnawn ac a ddywedwn ni nag i'r beiau a welwn ni mewn pobl eraill.

Peth bychan iawn yw brycheuyn, a phrin fod modd ei weld; ond chawn ni ddim trafferth i'w weld yn llygaid rhywun arall. Mae trawst yn enfawr, ac fe ddylai fod yn gwbl amlwg, ond mae'r ffaith nad ydym yn ymwybodol ohono yn ein llygaid ein hunain yn dangos mor ddall y medrwn fod i'n beiau ein hunain.

Ond os oes gan Iesu rybudd ynghylch y trawst, diolch fod ganddo hefyd ras i ni wneud rhywbeth ynglŷn ag o. ‘Tyn y trawst allan o'th lygad dy hun,’ meddai; ond mor dda yw cofio hefyd mai trwy ei nerth y medrwn wneud hynny. Trwy ras Duw y gwelwn ein beiau a'n gwendidau; trwy ras Duw y medrwn eu cydnabod; a thrwy ras Duw y medrwn ymdrechu i'w trechu a byw yn ôl dysgeidiaeth ein Gwaredwr.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Yr wyf yn gorwedd ac yn cysgu, ac yna'n deffro am fod yr Arglwydd yn fy nghynnal. Nid ofnwn pe bai myrddiwn o bobl yn ymosod arnaf o bob tu' (Salm 3:5-6).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Nerys Griffith ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Huw Fôn Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont (yn Ysgoldy Maesygroes) am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Diolch i bawb am eu gwasanaeth ym mhob un o'r eglwysi ystod y dydd.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth. Mae'n help mawr cael gwybod pwy sydd ym mha ysbyty ar unrhyw amser.

Cymdeithas

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth yr wythnos hon, Chwefror 9.

Noson Gwis fydd hon yng ngofal y Gweinidog. Dwi'n addo na fydd y cwestiynau'n rhy anodd – ddim cweit mor hawdd â rhai *Heno* ond haws o lawer na rhai *University Challenge!*

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 9 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda

Gwnaed y trefniadau ar gyfer Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yn y pwyllgor a gynhaliwyd yn festri Pendref Bangor nos Fawrth.

Cafodd swyddogion y Pwyllgor eu hail ethol. Doedd hynny ddim yn ormod o syndod i Mr Neville Hughes, Mr Joe Hughes a Mrs Helen Williams gan y byddan nhw wedi cwblhau deugain mlynedd o wasanaeth i'r Gymanfa eleni. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw, ac mae'n siwr fod pawb sydd wedi dilyn y Gymanfa dros y blynyddoedd yn diolch iddyn nhw am eu gwaith a'u ffyddlondeb i'r Gymanfa dros gyfnod maith.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng nghapel Pendref, Bangor fore Sul, Mai 15.

Cewch ragor o fanylion yn nes at y ddyddiad hwnnw.

, Chwefror 2. Trafodir Cymanfa 2016. Bydd cyfarfod o Is-bwyllgor y Maes Llafur yn dilyn y pwyllgor hwn. Gwahoddir eglwysi cylch y Gymanfa i sicrhau cynrychiolaeth yn y Pwyllgor.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Chwefror 12.

Cwrs Ieuentid

Bydd rhai o aelodau CIC Llanberis yn mynd i'r Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala y mis hwn.

Cynhelir y Cwrs o nos Wener, Chwefror 19 hyd amser cinio dydd Sul, Chwefror 21. Trefnir bws i gludo'r ieuentid yno ac yn ôl.

Os oes rhywun arall eisiau mynd ar y cwrs rhowch wybod i'r Gweinidog neu i Andrew Settatree erbyn canol yr wythnos nesaf yma.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor Yr Ofalaeth am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Chwefror 17.

Mentwrn gyhoeddi mai hwn fydd y dyddiad pendant ar ôl cael trafferth i gael dyddiad hwylus hyd yma.

Ebeneser

Bydd Mr Jackie Parry a Mr Idris Parry y rhoi'r gorau i'r gwaith o agor a chau'r capel ddiwedd y mis hwn wedi oddeutu tair mlynedd ar ddeg o wasanaeth gwerthfawr iawn. Buont yn gofalu am gadw'r tir o flaen y festri yn daclus hefyd gan dorri'r gwawir ac ati.

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn yr holl waith a wnaeth y ddau dros y cyfnod hwn. Mae wedi bod o gymorth mawr i waith yr eglwys. Diolch yn fawr iawn i'r ddau ohonoch am eich holl waith.

Os oes unrhyw un yn fodlon helpu efo'r gwaith o agor y capel ar fore Sul, rhowch wybod i un o swyddogion Ebeneser neu i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.

Yn ôl y patrwm presennol yr oedfaon, mae angen arbennig am help i agor y festri ar ddau fore Sul o bob mis.